# Cyngor Sir Ceredigion

# Adroddiad Blynyddol

# Trosolwg a Chraffu

# 2020/21



# Cyflwyniad

**BETH YW TROSOLWG A CHRAFFU?**

Mae pwyllgorau craffu'n rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithredu yng Nghymru. Ochr yn ochr â'r gofyniad i sefydlu gweithrediaeth sy'n gwneud penderfyniadau, mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 hefyd yn peri iddi fod yn ofynnol sefydlu un neu ragor o bwyllgorau craffu i ddwyn y penderfynwyr i gyfrif, i hybu gwelliannau, i weithredu fel llais y gymuned, ac i gynorthwyo â'r gwaith o lunio ac adolygu polisïau.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn argymell pedair prif egwyddor i gynorthwyo Aelodau i ymgymryd â gwaith craffu effeithiol:

i. Herio'r rheini sy'n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau fel 'cyfaill beirniadol';
ii. Sicrhau bod llais a phryderon y cyhoedd a chymunedau'n cael eu clywed;
iii. Sicrhau mai 'llywodraethwyr annibynnol eu meddwl' sy'n arwain ac yn perchnogi'r broses graffu;
iv. Sicrhau bod y broses yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn hybu gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus.

Mae'r *Canllawiau Statudol i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen* (2006) yn nodi "bod pwyllgorau trosolwg a chraffu yn rhan hanfodol ac annatod o drefniadau gweithrediaeth".

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn o'r enw *Diwygio llywodraeth leol: cadernid ac adnewyddiad.* Roedd y papur gwyn yn gofyn am sylwadau ar gynigion i beri iddi fod yn orfodol gweithio ar sail ranbarthol i ddarparu gwasanaethau amrywiol, i fynd i'r afael â materion gweithlu, ac i fynd ati i ddiwygio'r drefn etholiadol. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi papur gwyrdd sy'n egluro ei dyheadau ac yn amlinellu datganiad o'i bwriad i gryfhau ac i rymuso llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r cynigion hyn yn amlinellu dull o sicrhau y bydd modd i lywodraeth leol fynd ati yn y dyfodol "i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cryfach, mwy cadarn a chynaliadwy, gydag atebolrwydd democrataidd yn graidd iddi".

Pan darodd y pandemig, ffocws Cyngor Sir Ceredigion oedd amddiffyn ei breswylwyr a pharhau i weithredu ei swyddogaethau allweddol. Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi dysgu craffu o bell, cynnal agwedd hyblyg tuag at ein rhaglenni blaen ac addasu i flaenoriaethau sy'n newid. Mae gweithio o bell wedi ein dysgu i symleiddio prosesau, cynnal ansawdd tra'n cynyddu ein hyblygrwydd a'n ystwythder. Ailddechreuodd Pwyllgorau Craffu eu rhaglenni gwaith o fis Medi 2020. Mae pwyllgorau wedi cyfarfod yn rheolaidd ac yn parhau gyda'r gwaith craffu a flaenoriaethir.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn llawer byrrach na blynyddoedd blaenorol. Roedd hyn fel na wnaethom roi unrhyw faich gormodol ar ein Swyddogion a'n Partneriaid a oedd yn rhan o broses ymateb ac adfer Covid.

Mae'n wir dweud bod y pandemig wedi cael ac yn parhau i ael effaith ar fywydau pobl, ein cymunedau a'r modd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau. Mae rheoli'r ymateb brys i'r pandemig, y Cyfnod Adferiad a'r normal newydd yn gyfnod hynod heriol ir Cyngor a phob sefydliad sector cyhoeddus arall ledled Cymru wrth i ni barhau i wynebu heriau argyfwng Covid-19.. Mae hyn wedi golygu bod y Cyngor wedi gorfod newid ei ffordd o weithio oherwydd yr argyfwng iechyd byd-eang hwn.

## GALW PENDERFYNIADAU I MEWN



Pan wneir penderfyniad gan y Cabinet, aelod o'r Cabinet neu un o bwyllgorau'r Cabinet, neu pan wneir penderfyniad dan drefniadau ar y cyd, bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi, gan gynnwys drwy ddulliau electronig lle bo hynny'n bosibl, a bydd ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor cyn pen dau ddiwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei wneud fel rheol. Bydd y sawl sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r penderfyniad yn anfon copi o'r cofnodion at yr Aelodau cyn pen dau ddiwrnod gwaith. Bydd yr hysbysiad yn dangos dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad ac yn nodi y bydd yn dod i rym, ac y gellir ei roi ar waith, ar ôl i bum diwrnod gwaith fynd heibio ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad, oni bai fod tri aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y mae ei gylch gorchwyl yn gysylltiedig â phenderfyniad y Cabinet (fel y nodir yn Erthygl 6 o Ran 2 o'r Cyfansoddiad) neu chwe Aelod Etholedig o'r Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor hwnnw, yn gwrthwynebu'r penderfyniad a'i alw i mewn. Ceir mwy o wybodaeth am y broses o alw penderfyniadau i mewn ar dudalen 211 o Gyfansoddiad y Cyngor. https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ynglyn-cyngor/cyfansoddiad-y-cyngor/

Ni dderbyniodd Cyngor Sir Ceredigion unrhyw gais i alw mewn penderfyniadau yn ystod cyfnod yr adrodd hwn.

## Y PWYLLGORAU

Ceir pum pwyllgor trosolwg a chraffu thematig:




- Cydlynu




- Cymunedau Ffyniannus




- Cymunedau sy’n Dysgu




- Cymunedau Iachach




- Adnoddau Corfforaethol

O dan adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, rhoddir pwerau adolygu a chraffu eang i’r pwyllgorau, ynghyd â’r gallu i lunio adroddiadau ac i wneud argymhellion o ran unrhyw fater sy’n berthnasol i’r ardal a’i thrigolion. Yn ôl y canllawiau, swyddogaethau’r cynghorwyr sy’n ymgymryd â gwaith trosolwg a chraffu yw:

i. dal y weithrediaeth yn atebol am arfer swyddogaethau’r weithrediaeth yn effeithlon – yn arbennig perfformiad y weithrediaeth o’i fesur yn erbyn y safonau, yr amcanion a’r targedau a nodir yn y polisïau a’r cynlluniau y mae’n eu gweithredu;
ii. helpu i wella ac i ddatblygu polisïau’r cyngor drwy bwyso a mesur a ydynt yn cyrraedd yr amcanion a nodwyd, a yw’r polisïau hynny a’r ffordd y maent yn cael eu gweithredu yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau’r cymunedau lleol a thrwy gyflwyno adroddiadau ac argymhellion i’r weithrediaeth neu i’r cyngor llawn;
iii. adolygu materion sy’n effeithio ar ardal yr awdurdod neu ei thrigolion a chyflwyno adroddiadau arnynt;

iv. edrych a yw'r systemau y mae'r weithrediaeth wedi'u sefydlu i gyflwyno'i swyddogaethau yn gadarn ac yn cael eu parchu'n iawn.

Yn ychwanegol at hyn, gallant adolygu sut y mae'r swyddogaethau anweithredol yn cael eu cyflawni a llunio adroddiadau am faterion o ddiddordeb lleol mwy cyffredinol. Gallent gyplysu hyn â phŵer yr awdurdod o dan Ran 1 o'r Ddeddf i hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol drwy nodi meysydd y gallai'r weithrediaeth roi sylw iddynt gan ddefnyddio'r pŵer hwn.

Mae canllawiau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn nodi bod gan swyddogaeth graffu unrhyw awdurdod rôl glir yn ei brosesau gwella, a hynny fel rhan o'i swyddogaeth i ddwyn penderfynwyr a llunwyr polisïau i gyfrif yn lleol, a'i swyddogaeth llunio polisïau. Dylai hyn gynnwys:

i. craffu ar y prosesau y mae awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
ii. craffu ar addasrwydd y sefydliad i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
iii. craffu ar y prosesau y mae awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth ddewis ei amcanion gwella, gan gynnwys adolygu lefel yr ymgysylltu â rhanddeiliaid;
iv. craffu ar fonitro'r cynnydd wrth gyflenwi amcanion gwella'r awdurdod;
v. hyrwyddo arloesi trwy herio'r drefn ac annog gwahanol ffyrdd o feddwl ac opsiynau cyflenwi.

O dan adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol sicrhau bod gan ei bwyllgorau trosolwg a chraffu bŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ardal yr awdurdod lleol, neu'r camau a gymerir ganddo, pan fydd yn arfer ei swyddogaethau.

Yn ystod y flwyddyn adrodd flaenorol, bu aelodau'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'n trin a thrafod materion a oedd yn ymwneud â chraffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (y Bwrdd).

I gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac i sicrhau bod trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol ar waith ar gyfer y Bwrdd, cytunwyd y byddai Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am gael trosolwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd.

Cytunodd Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion i ddefnyddio'r dull a ganlyn i gael trosolwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd.

i. Adolygu'r penderfyniadau a wnaed neu'r camau a gymerwyd gan y Bwrdd, neu graffu arnynt, drwy wneud yr hyn a ganlyn:
    - Gweithredu fel ymgynghorai ffurfiol ar gyfer yr Asesiad o Lesiant Lleol
    - Gweithredu fel ymgynghorai ffurfiol ar gyfer y Cynllun Llesiant Lleol
    - Cael adroddiad cynnydd blynyddol y Bwrdd
    - Cael cofnodion y Bwrdd
    - Cael adroddiadau monitro perfformiad y Bwrdd.

ii. Adolygu **trefniadau llywodraethu'r Bwrdd**, neu graffu arnynt, drwy wneud yr hyn a ganlyn:
    - Cael cylch gorchwyl y Bwrdd ar ôl pob un o gyfarfodydd gorfodol y Bwrdd (rhaid cynnal cyfarfod gorfodol o'r Bwrdd cyn pen 60 diwrnod ar ôl pob etholiad arferol i ethol cynghorwyr fan bellaf).
    - Gwahodd aelodau o'r Bwrdd i roi tystiolaeth o ran y modd y mae cyd-swyddogaethau'n cael eu harfer (ond dim ond o ran arfer y cyd-swyddogaethau a roddwyd iddynt fel aelod statudol o'r Bwrdd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).
iii. Llunio adroddiadau neu wneud argymhellion i'r Bwrdd o ran ei swyddogaethau neu ei drefniadau llywodraethu.
iv. Cyfeirio materion at y pwyllgor trosolwg a chraffu thematig perthnasol i'w ystyried ymhellach fel y bo'n briodol.
v. Cyflwyno argymhellion y pwyllgor(au) craffu i'r Cabinet, y Bwrdd a'r is-grŵp perthnasol.

**Gall y pwyllgorau craffu gyflawni eu gwaith drwy un o'r ffyrdd a ganlyn:**

i. Ystyried pwnc yn ystod cyfarfod ffurfiol;
ii. Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ymchwilio i bwnc mewn mwy o fanylder;
iii. Ystyried pwnc mewn ffrwd waith (gweler y manylion a geir yn adran y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ar dudalen 52 isod);
iv. Ymweld â safleoedd.

Bu'r pwyllgorau trosolwg a chraffu'n canolbwyntio ar y meysydd hynny lle y gallent ddylanwadu fwyaf ar y canlyniadau i bobl Ceredigion. O'r herwydd, aeth y pwyllgorau ati i adolygu pynciau amrywiol, ac mae rhai o'r adolygiadau hyn yn dal i fynd rhagddynt.

Mae aelodau'r pwyllgorau trosolwg a chraffu wedi gweithio'n galed i greu diwylliant lle mae tryloywder, cyfranogiad ac atebolrwydd yn cael eu croesawu a lle mae her yn cael ei hystyried yn rhan anhepgor a chadarnhaol o'r broses o wella canlyniadau. Mae'n dal i fod yn hanfodol bod y pwyllgorau trosolwg a chraffu'n parhau i gyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor drwy eu rôl fel cyfaill beirniadol.

**Hunanwerthuso'r pwyllgorau trosolwg a chraffu**

Bob blwyddyn, cynhelir adolygiad o effeithiolrwydd y pwyllgorau trosolwg a chraffu. Gellir llenwi'r holiadur ar-lein neu ar bapur. O ran holiadur 2018/19, daeth 20 ymateb i law (allan o gyfanswm posibl o 42). Cytunodd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd y dylid lleihau nifer y cwestiynau yn holiadur 2019/20 i geisio cynyddu nifer yr ymatebion.

## Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

Cyfarfu'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu dair gwaith yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2020/2021.



Ymhlith yr eitemau safonol a drafodir ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y mae diweddariad am ddatblygiadau o ran y swyddogaeth graffu, a diweddariad gan y Cadeiryddion am waith eu pwyllgorau. Mae hyn yn rhoi ffocws clir i waith y pwyllgorau thematig.

Y prif faterion a drafodwyd

Rôl y Pwyllgor Cydlynu yw goruchwylio holl flaenraglenni gwaith y pwyllgorau trosolwg a chraffu i sicrhau eu bod yn berthnasol, eu bod yn gydnaws â'r blaenoriaethau corfforaethol, a'u bod yn canolbwyntio ar feysydd allweddol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn sicrhau bod y blaenraglenni gwaith yn cael eu cydlynu i osgoi dyblygu, gan sicrhau eu bod yn realistig ac yn ymarferol o ystyried yr adnoddau sydd ar gael, a'u bod yn debygol o ychwanegu gwerth. Mae pob pwyllgor yn cytuno i ystyried ei flaenraglenni gwaith ei hunan.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol adroddiad am ymateb Cyngor Sir Ceredigion i Covid-19. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau mai blaenoriaeth Cyngor Sir Ceredigion - o'r cychwyn cyntaf - oedd diogelu'r trigolion a chadw'r nifer a fyddai'n dal y coronafeirws a nifer y marwolaethau ohono mor isel â phosib. Eglurwyd bod hwn wedi bod yn gyfnod heriol tu hwnt i bawb.

Dywedwyd bod Grŵp Rheoli Aur a oedd yn cynnwys Uwch-dîm Rheoli'r Cyngor wedi'i sefydlu ar unwaith; roedd y grŵp wedi cwrdd yn ddyddiol ers canol mis Mawrth i arwain ymateb y Cyngor i COVID-19. Ar 25 Mawrth 2020, rhoddodd Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor bwerau dirprwyedig dros dro i Brif Weithredwr a Grŵp Arweiniol y Cyngor i wneud penderfyniadau yn ymwneud ag ymateb y Cyngor i COVID-19. Gwnaed y penderfyniad i ddirprwyo awdurdod yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Mae'r pum Grŵp Arian canlynol yn cefnogi'r Grŵp Rheoli Aur ac maent yn adrodd yn wythnosol i'r Grŵp Rheoli Aur:

1. Olrhain Cysylltiadau a Phrofi

2. Addasiadau Economaidd
3. Ailagor Ysgolion
4. Marwolaethau Ychwanegol (rhoddwyd y gorau i'r grŵp hwn erbyn hyn)
5. Digartrefedd (rhoddwyd y gorau i'r grŵp hwn erbyn hyn)

Cyfarfu'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd o leiaf unwaith yr wythnos gyda chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghyd ag Arweinwyr a Phrif Weithredwyr eraill, yr Aelod Seneddol a'r Aelod o Senedd Cymru. Rhoddwyd sesiynau briffio rheolaidd i Aelodau'r Cabinet ac Arweinydd yr Wrthblaid.

Cyfeiriwyd at y camau gweithredu canlynol:

- Cael Ceredigion i lawr i'w phoblogaeth graidd gan weithio gyda'r sector twristiaeth a'r Prifysgolion i gau eu cyfleusterau;
- Cau drysau'r Cartrefi Gofal i ymwelwyr;
- Sefydlu Hwb Cyfarpar Diogelu Personol (PPE);
- Gweinyddu cymorth ar ffurf grantiau i fusnesau (dyrannwyd dros £28 miliwn yn ystod cyfnod y coronafeirws i fusnesau yng Ngheredigion);
- Y Tîm Diogelu'r Cyhoedd yn cefnogi busnesau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol a'r rheoliadau newydd;
- Cysylltu dros y ffôn â'r rhai sy'n fregus yn feddygol a'r rhai sy'n cysgodi er mwyn sicrhau bod bwyd a meddyginiaeth yn cael eu cyflenwi;
- Darparu bocsys bwyd wythnosol gyda chynnyrch lleol i dros 950 o drigolion bregus, ac mae staff y Cyngor wedi cysylltu â dros 2,500 o unigolion yn rheolaidd (derbyniwyd 159 o negeseuon o ganmoliaeth parthed y bocsys bwyd a'r cyswllt rheolaidd). Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, daeth y cynllun bocsys bwyd i ben ar 16 Awst 2020;
- Darparu llety dros dro i'r digartref;
- Unigolion a grwpiau yn gwirfoddoli i gyflenwi bwyd a meddyginiaeth i'r rheini sy'n cysgodi;
- Darparu gofal plant i blant gweithwyr gwasanaethau rheng flaen;
- Nifer o staff ar draws holl ysgolion uwchradd y sir wedi bod yn cynhyrchu masgiau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod system olrhain cysylltiadau wedi'i datblygu gan y Cyngor ddechrau mis Ebrill gan ddwyn ynghyd dîm o staff â sgiliau ym maes olrhain iechyd yr amgylchedd, diogelu data, adnoddau dynol a systemau data TGCh. Cafodd y system rheoli data ei llywio gan swyddogion Iechyd yr Amgylchedd oedd â phrofiad o olrhain achosion megis legionella a gwenwyn bwyd. Daeth y Cyngor wedyn yn rhan o'r cynllun cenedlaethol ar gyfer Profi, Olrhain a Diogelu.

O'r cychwyn cyntaf, bu Cyngor Sir Ceredigion yn cydweithio'n agos â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Heddlu Dyfed-Powys, Prifysgol Aberystwyth, busnesau a nifer o

grwpiau gwirfoddol ac elusennol er mwyn sicrhau bod cydweithio a chyfathrebu effeithiol yn digwydd.

Trafodwyd y cam addasu a chydnerthedd y Cyngor yn yr hirdymor. Diben y trydydd cyfnod oedd pennu strategaethau tymor canolig a hirdymor a fyddai'n nodi arferion gwaith newydd a allai barhau hyd at ddiwedd pandemig COVID-19.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Cododd Aelod o'r Pwyllgor bryder ynghylch bod rhai ardaloedd wedi'u rhoi dan gyfyngiadau lleol a bod trigolion yr ardaloedd hynny yn teithio i Geredigion i aros yn eu hail gartrefi, er mwyn osgoi eu cyfyngiadau lleol. Mynegwyd siom nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi rheolau llymach ar waith. Mewn ymateb i'r pryder hwn, cadarnhawyd y bu trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r mater hwn.*

*Mynegwyd pryder fod y boblogaeth hŷn yn ei chael hi'n anodd derbyn nad ydynt yn gallu defnyddio arian parod mwyach a bod yn rhaid iddynt ddefnyddio cardiau yn y rhan fwyaf o siopau, ac ati. Awgrymwyd y dylid darparu cymorth ac arweiniad i helpu'r henoed.*

Cyflwynwyd trosolwg o amcanion a chyflawniadau Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru ar sail Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011 gerbron y Pwyllgor.

Daeth Sian Howys, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal i un o'r cyfarfodydd i gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2018/2019 gan amlinellu'r cynnydd a wnaed ar sail y deilliannau a osodwyd gan CYSUR a CWMPAS ym mis Mawrth 2018 fel rhan o'r Cynllun Strategol Blynyddol ar y cyd.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi'r adroddiad er gwybodaeth, gan wneud hynny fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am faterion Diogelu.*

Hefyd, cyflwynwyd Adroddiadau Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR Chwarteri 2, 3 a 4 2019-20 gerbron y Pwyllgor.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Yn dilyn cwestiwn gan Aelod ynghylch capasiti'r staff, dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd yn anodd recriwtio staff ar hyn o bryd gan fod cynnydd, yn ôl pob golwg, yn nifer y bobl ifanc a oedd yn dymuno dilyn gyrfa mewn Gwaith Cymdeithasol. Hefyd roedd y Cynllun Gwaith Cymdeithasol dan Hyfforddiant yn gweithio'n dda iawn yng Ngheredigion. Cadarnhawyd hefyd fod cyfathrebu parhaus rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Heddlu*.

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion ar gyfer 2019-20. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lunio a chyhoeddi adroddiadau blynyddol sy'n ymwneud â chyflawni eu Cynlluniau Llesiant. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol bod yr adroddiadau blynyddol yn cael eu craffu gan bwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r

Byrddau yn lleol. Yn wahanol i'r asesiadau llesiant a'r cynlluniau llesiant, nid oes yn rhaid i'r Bwrdd aros am argymhellion y panel craffu cyn cymeradwyo adroddiadau blynyddol. Fodd bynnag, anogir y Bwrdd i ddefnyddio argymhellion y Pwyllgor Craffu wrth ddatblygu rhaglenni gwaith a'r chyflawni'r gwaith adrodd yn y dyfodol. Yn dilyn gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2020, cydnabuwyd effaith Covid-19 ar sefydliadau'r Bwrdd wrth i lawer ohonynt orfod cyfeirio staff i ymateb i faterion gweithredol a brys. O ganlyniad, roedd modd i aelodau'r Bwrdd ystyried dull 'ysgafnach' o gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-2020, gan gydnabod yr effaith sylweddol ar sefydliadau'r Bwrdd a chymunedau. Cyfeiriwyd at y chwe nod lles a gyflawnir gan y grwpiau prosiect a'r cynllunio at y dyfodol sydd bellach yn cael ei weld drwy lygaid Covid-19; roedd y grwpiau prosiect hynny a oedd wedi cwrdd dros y chwe mis diwethaf wedi bwrw golwg eto ar eu cynlluniau cyflawni gan gadw hyn mewn cof.

Cyfeiriwyd hefyd at y gwaith a wnaed gan Grŵp Prosiect 'Deall ein Cymunedau'. Roedd y ffaith bod grwpiau cymorth cymunedol wedi datblygu'n gyflym ar ddechrau cyfnod clo Covid-19 wedi dangos mor werthfawr oedd cael cymorth lleol iawn mewn ymateb i argyfwng. Trwy gofnodi'r cymorth hwn ar ffurf mapiau haenog, llwyddwyd i gael darlun daearyddol o'r sefydliadau a'r grwpiau cymorth cymunedol a oedd yn ymateb i Covid-19, gan gynnwys Banciau Bwyd, Cynghorau Cymuned a Thref, Cysylltwyr Cymunedol a Grwpiau Cymorth Lleol. Drwy'r gwaith hwn, roedd modd nodi'r meysydd lle'r oedd bylchau posib a gweithredu dulliau o gefnogi'r grwpiau hynny lle'r oedd y ddarpariaeth yn deneuach. Darparodd hyn sylfaen dda i Gynghorau Cymuned a Thref, ac eraill a oedd yn weithgar yn eu cymunedau fel y gallent ymgysylltu ymhellach â'u cymunedau yn y dyfodol.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Codwyd pryder ynghylch y ffaith nad oedd sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn llwyr ystyried integreiddio eu gwasanaethau gan greu hybiau ar y cyd mewn un lleoliad. Rhannwyd y neges hon ag aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y cyfarfod nesaf.*

*Dymunai un o'r Cynghorwyr atgoffa aelodau'r Bwrdd i gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned wrth ymgysylltu, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig. Cytunwyd y byddai'r pwynt hwn yn cael ei godi yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.*

*Cadarnhawyd bod croeso i Gynghorwyr arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd.*

*Cytunwyd i dderbyn Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar gyfer 2019-20 fel y'i cyflwynwyd.*

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2019/20 cyn iddo gael ei gyflwyno gerbron y Cyngor.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Gwnaeth y Cyngor nodi'r Adroddiad Blynyddol.*

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn fwrdeistrefol, ystyriwyd Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol Cyfun CYSUR/CWMPAS Chwarter 1 2020/21.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

Dyma grynodeb o'r pwyntiau allweddol a ystyriwyd:

- *Roedd gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau yn ymwneud â phlant a arweiniodd at weithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru o'i gymharu â'r chwarter blaenorol ond mae'r nifer yn parhau'n gyson â'r nifer ar yr adeg hon y llynedd.*
- *Y prif bryderon a arweiniai at gyflawni ymholiadau yn ymwneud â diogelwch plant oedd honiadau o gam-drin corfforol a cham-drin rhywiol.*
- *Roedd gwelliant sylweddol yng nghanran y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhaliwyd o fewn yr amserlen angenrheidiol.*
- *Y prif ffactorau risg a gofnodwyd oedd cam-drin domestig, rhieni'n gwahanu, rhieni'n cam-drin sylweddau a rhieni ag anawsterau iechyd meddwl.*
- *Roedd naw plentyn yn llai ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, ond mae'r nifer hwn yn parhau o fewn yr ystod arferol.*
- *Roedd gostyngiad yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd yn ymwneud ag oedolion mewn perygl o'i gymharu â'r chwarter blaenorol a gostyngiad mawr mewn adroddiadau a dderbyniwyd o'i gymharu â'r un chwarter yn 2019. Mae cyfnod chwarter 1 yn cynnwys y cyfnod pan ddaeth y canllawiau llym i gadw pellter cymdeithasol i rym ac yn ystod y cyfnod hwn roedd gostyngiad sylweddol yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Diogelu Oedolion. Ar ddechrau'r ail chwarter, yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst, cafwyd cynnydd sylweddol yn yr adroddiadau a dderbyniwyd. Derbyniodd y tîm 123 o adroddiadau hyd at ddiwedd mis Awst.*
- *Yn Chwarter 1, rheolwyr cartrefi gofal, staff Gwasanaeth Tai yr Awdurdod Lleol a staff Gwaith Cymdeithasol fu prif ffynonellau'r adroddiadau yn ymwneud ag oedolion mewn perygl, gyda staff gwaith cymdeithasol a staff Gwasanaeth Tai yr Awdurdod Lleol yn adrodd am bryderon parthed sefyllfaoedd o gam-drin domestig neu bryderon am gam-drin o'r fath.*
- *Cam-drin emosiynol/seicolegol oedd y prif fath o gamdriniaeth yr adroddwyd amdano yn Chwarter 1 o safbwynt oedolion mewn perygl.*
- *Yn ystod y Chwarter hwn, roedd un ymchwiliad heddlu parhaus ar raddfa fawr ynghylch honiadau a wnaed yn erbyn staff mewn cartref gofal preswyl a oedd yn gofalu am bobl ag anableddau dysgu.*
- *Mae'r Tîm Diogelu Oedolion yn bwrw ymlaen â'r gwaith gyda Nick Andrews, Swyddog Ymchwilio a Datblygu Arferion ym Mhrifysgol Abertawe, er mwyn datblygu fframwaith Sicrhau Ansawdd a fydd yn ein galluogi i gasglu gwerthusiadau ystyrlon oddi wrth unigolion/ teuluoedd sydd wedi bod drwy'r broses Ddiogelu.*

Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am Gofnod Penderfyniadau Grŵp Rheoli Aur COVID-19.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Mynegwyd pryder nad oedd Aelodau Lleol wastad yn cael gwybod am faterion a oedd yn effeithio ar eu hardal leol a gofynnwyd am i'r neges hon gael ei throsglwyddo i'r Grŵp Rheoli Aur i'w hatgoffa am bwysigrwydd cyfathrebu â'r Aelodau Lleol.*

*Mynegwyd pryder nad oedd modd cynnal ymweliadau safle yn y maes cynllunio ar yr adeg honno ac esboniwyd y rhesymau dros beidio â chaniatáu'r ymweliadau.*

Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd am fonitro defnydd yr Awdurdod o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA). Mae'r adroddiad yn rhoi sylw i weithgaredd RIPA, mesurau ar gyfer diogelu dulliau o drafod a chadw data, polisi a gweithdrefnau corfforaethol RIPA, polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA'r Cyngor, a hyfforddiant.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Cytunodd y Pwyllgor i:*

1) *nodi na fu unrhyw weithgaredd RIPA gan unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 1 Awst 2019 a 30 Tachwedd 2020.*
2) *nodi cynnwys y ddogfen ddrafft ddiwygiedig Polisi a Gweithdrefnau RIPA Corfforaethol.*

Mae cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor. Hefyd, mae'r aelodau'n ystyried adroddiadau Grwpiau Prosiect y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Argymhellwyd y dylai cynrychiolydd o'r Cynghorau Tref / Cymuned fod ar y Bwrdd a chadarnhawyd bod cynrychiolydd o Un Llais Cymru yn Aelod o'r Bwrdd ar hyn o bryd. Argymhellodd Aelod arall y byddai'n fuddiol i Aelodau'r Pwyllgor pe byddai aelodau'r Grwpiau Prosiect unigol yn gallu mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n mynd rhagddo. Aeth y Cadeirydd â'r cais hwn yn ôl i gyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunodd yr Aelodau i dderbyn y cofnodion ac i dderbyn adroddiadau'r Grwpiau Prosiect.*

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2019-2020.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Cytunodd yr Aelodau i dderbyn a chadarnhau Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020, fel y'i cyflwynwyd, ar yr amod y nodir ar dudalen 20 yr adroddiad fod lle chwarae Llandygwydd yn eiddo i Tai Ceredigion.*

Ystyriodd y Pwyllgor y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol cyn iddi ddod i rym. Esboniwyd diben y ddyletswydd i Aelodau'r Pwyllgor, sef cynnwys y cwestiynau arfaethedig am y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn Asesiadau Effaith Integredig y Cyngor. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Mae Adran 45 o Ddeddf Cymru 2017 yn datganoli pŵer i Weinidogion Cymru i weithredu'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ar gyfer Llywodraeth Cymru.
- Mae hyn yn golygu rhoi Rhan 1, Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ar waith.
- Mae Rhan 1, Adran 1 o Ddeddf 2010 yn gofyn bod cyrff cyhoeddus penodol, wrth wneud penderfyniadau strategol megis 'pennu blaenoriaethau a gosod amcanion', yn ystyried sut y gall eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Yn fras, mae'r ddyletswydd yn ofyniad i gynnal asesiad o'r effaith ar dlodi.
- Cynigir bod testun a chwestiynau ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y templed ar gyfer Asesiadau Effaith Integredig.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i dderbyn a chadarnhau'r set arfaethedig o gwestiynau o ran y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol er mwyn eu cynnwys o fewn pecyn Asesu Effaith Integredig y Cyngor. Bu iddynt hefyd argymell y dylid cynnal Gweithdy am y pwnc hwn i'r holl Aelodau yn y dyfodol agos.*

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021/2022 gan gynnwys y rhaglen gyfalaf tair blynedd. Nodwyd bod cyfanswm y setliad refeniw a ddyrannwyd i Geredigion yn adlewyrchu cynnydd o 2% o'i gymharu â 2020/21 sef y setliad isaf yng Nghymru. Roedd y setliad yn adlewyrchu ystod o symudiadau ail-ddosbarthu llai ffafriol yn ariannol gan gynnwys gostyngiad yn y ffigurau a ragwelir yn y boblogaeth yn ogystal â niferoedd disgyblion meithrin/ysgol gynradd.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Cafwyd trafodaeth ynghylch ailddyrannu arbedion pe bai cyllid gwaelodol yn cael ei gyflwyno, a nodwyd y byddai'r Cabinet yn adolygu unrhyw welliannau a fyddai'n dod i'r amlwg. Nododd yr aelodau hefyd eu pryderon ynghylch y posibilrwydd o golli swyddi a'r effaith ar ddisgyblion ysgol os byddai'r fformiwla cyllido'n cael ei lleihau o ganlyniad i lai o ddisgyblion, a gofynasant am fwy o wybodaeth ynghylch cyd-brynu a'r rhaglen cyllid cyfalaf ar gyfer ffermydd sirol a oedd yn deillio o'r ddeddfwriaeth newydd ar Barthau Perygl Nitradau. Nodwyd hefyd, oherwydd COVID-19 a ffyrlo, fod hwn yn gyfnod hynod heriol i drigolion Ceredigion.*

*Daeth y drafodaeth i ben gydag esboniad pam oedd angen cynnydd o 3.5% yn Nhreth y Cyngor pan fo chwyddiant cyffredinol yn is na hyn a phan fo llawer o drigolion yn ei*

*chael hi'n anodd. Esboniwyd bod Treth Cyngor Band D y Cyngor yn is na chyfartaledd lefel Cymru gyfan a phan edrychid ar y pwysau manwl o ran costau yr oedd y Gwasanaethau yn eu hwynebu, fod y Cyngor fel rheol yn wynebu pwysau chwyddiant o 5% i 6% y flwyddyn, sef y lefel reolaidd ers sawl blwyddyn. Er bod elfen o hyn yn ymwneud â dyfarniad cyflog, roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â phwysau ar wasanaeth rheng flaen (e.e. Gofal Cymdeithasol) a oedd wedi'i yrru'n rhannol gan y niferoedd ynghyd â ffactorau allanol fel y Cyflog Byw.*

*Er bod lefel chwyddiant rhwng 5% a 6% bob blwyddyn, nid oedd lefel y cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn codi'n uwch na chwyddiant ac felly roedd mwy o faich ar y sawl oedd yn talu Treth y Cyngor. O ystyried y cefndir hwn, roedd y Cyngor yn dal i ddarparu ystod lawn o wasanaethau a oedd yn gyson naill ai'n cael eu hystyried yn Ardderchog, yn Dda Iawn neu'n Dda ac roedd Archwilio Cymru wedi canmol y Cyngor am ei ddulliau gweithredu o ran rheolaeth ariannol a chydnerthedd ariannol cyffredinol.*

*Dywedwyd wrth yr aelodau i godi pryderon ynghylch meysydd gwasanaeth penodol yn y pwyllgorau Craffu perthnasol. Cytunwyd i nodi'r adroddiad.*

## Materion trosedd ac anhrefn

Daeth adrannau 19 ac 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, ynghyd â Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009, i rym ar 1 Hydref 2009.

Yn unol â'r ddeddfwriaeth hon, mae'n ofynnol i'r Cyngor sefydlu:

- 'pwyllgor craffu trosedd ac anhrefn' a fydd yn craffu ar waith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion a'r cyrff sy'n aelodau ohoni mewn perthynas â'u swyddogaethau i ddiogelu'r gymuned,
- gweithdrefn a fydd yn sicrhau bod modd i'r pwyllgor trosolwg a chraffu, gan gynnwys y bartneriaeth a'r cyrff sy'n aelodau ohoni, fynd i'r afael â galwadau gan Gynghorwyr iddynt weithredu pan fyddant yn ymdrin â materion diogelwch cymunedol.

Bu i Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'r Cyngor ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros faterion trosedd ac anhrefn.

## Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

Gwnaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu gyfarfod 5 gwaith yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol 2020/2021.



**Y prif faterion a drafodwyd**

Cafodd y Flaenraglen Waith ei monitro a'i diweddaru ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

Ystyriwyd y gefnogaeth i'r ysgolion yn ystod y cyfnod clo a thu hwnt gan y pwyllgor craffu. Rhoddodd y Prif Swyddog Addysg gyflwyniad power point i'r Aelodau er mwyn tynnu sylw at yr adroddiad yn fwy manwl a rhoi gwybodaeth a roddwyd i ysgolion yn ystod yr amser hwn. Cyflwynwyd y wybodaeth ganlynol:-

- Cefndir o ran Cau Ysgolion
- Hybiau gofal plant
- Cefnogi Dysgu
    - Gwefannau Teams i'w cefnogi
    - Cefnogaeth cyn 20fed Mawrth 2020
    - Cefnogi Teuluoedd
    - Tasgiau ar-lein
    - Dysgu o Bell
    - Clipiau Fideo
    - Hyfforddiant ar gyfer 'ffrydio byw'
    - Cymorthfeydd digidol
    - Dysgu cyfunol
    - Gwefan Dysgu o Bell
    - Cynllun Gweithredu Canllaw Dysgu-Tymor yr Haf (Pum thema)
    - Dysgu Carlam 'Dysgu Carlam Ceredigion'
        - Iechyd a Lles Emosiynol
        - Llythrennedd
        - 'Y Daith Darllen'
        - Rhifedd
        - Gwefan – adnodd ar gyfer disgyblion sy'n gorfod hunan-ynysu

- Cefnogi grwpiau penodol

- Tlodi Digidol
- Cefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion
- Diogelu
- Disgyblion yn cael Prydau Ysgol Am Ddim
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Gweithio gyda gwasanaethau eraill
- Gweithgareddau'r Haf

- Cefnogi ailagor Ysgolion
    - Covid – Canllawiau ar ysgolion yn ailagor o fis Medi 2020
    - Asesiadau Risg
    - Cyfarpar Diogelu Personol
    - Cau ysgolion yn rhannol
    - Cyfathrebu

Mynychodd Ms Mair Hughes, Pennaeth Ysgol Penglais, Mr Owain Jones, Pennaeth, Ysgol Gyfun Aberaeron, Ms Nia Thomas, Pennaeth, Ysgol Gynradd Bro Sion Cwilt a Mr Eirwyn Griffiths, Pennaeth, Ysgol Gynradd Aber-porth i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Codwyd y materion canlynol gan yr Aelodau ac aeth y Prif Swyddog Addysg i'r afael â hwy ynghyd â'r penaethiaid a oedd yn bresennol:*

- *Pryder nad oedd disgyblion â rhieni di-Gymraeg yn gallu cynorthwyo eu Plant yn ystod y cyfnod clo gydag addysgu gartref ac felly wedi penderfynu mynd â'u plant allan o'r Ysgol Cyfrwng Cymraeg a'u cofrestru mewn ysgolion lle'r oedd Saesneg yn iaith yr ysgol. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog Addysg nad oedd hwn yn batrwm ar hyn o bryd ac os oedd, byddai'r Gwasanaeth Addysg yn mynd i'r afael ag ef o ganlyniad. Roedd y Ganolfan Gymraeg hefyd wedi parhau i roi gwersi Cymraeg o bell i ddisgyblion yn ystod yr amser hwn.*
- *Bod y cyfathrebu yn ystod y cyfnod clo rhwng athrawon a disgyblion a'u rhieni trwy alwad ffôn wythnosol wedi bod yn hanfodol i gadarnhau lles yr holl ddisgyblion. Mewn rhai achosion, roedd wedi bod o fudd i berthnasoedd athrawon a rhieni.*
- *Hysbyswyd yr aelodau gan y Penaethiaid bod defnyddio'r systemau i gynorthwyo athrawon i addysgu trwy dechnoleg wedi annog athrawon i ehangu eu sgiliau TG, roedd hwn wedi bod yn gam cadarnhaol iawn i bob ysgol.*
- *Awgrymodd Aelod y gallai addysgu o bell gynorthwyo disgyblion ymhellach yn eu haddysg i godi eu safonau. Dywedodd y Prif Swyddog Addysg fod disgwyl i Weminarau gael eu cynnal ar ôl hanner tymor i gynorthwyo disgyblion gyda Bioleg, Cemeg a Ffiseg, gwers tri chwarter awr oedd y rhain. Byddai hefyd yn cael ei recordio er mwyn i'r disgybl ailedrych ar y wers pe na bai'n glir ar bwnc penodol a drafodwyd. Awgrymwyd bod Aelodau Ffrwd Waith Safonau Gwaith Ysgol yn mynychu'r gweminarau hyn i weld y ffordd yr oedd y gwersi yn cael eu haddysgu ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn unol â hynny. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai'n gwirio a allai Cynghorwyr fod yn bresennol oherwydd materion diogelu, fodd bynnag, os nad oedd hyn yn bosibl, byddai recordiad y weminar ar gael iddynt.*

- *Oherwydd cyfnod y gaeaf a phosibilrwydd ‘cynnydd sydyn’ mewn achosion covid a fyddai digon o staff i gadw’r ysgolion ar agor, hefyd staff a oedd yn gorfod hunan-ynysu na allent fynychu ysgolion. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog Addysg fod diogelwch y staff a'i ddisgyblion o'r pwys mwyaf ac os oedd staff a oedd yn ynysu yn iach, gallent gyfrannu at waith yr ysgol o bell. Roedd cynlluniau cadarn ar waith hefyd gan bob ysgol i fynd i’r afael â’r ‘cynnydd sydyn’ fodd bynnag, mae gan Benaethiaid y pwerau statudol i gau ysgol am resymau iechyd a diogelwch megis lefelau staffio annigonol.*
- *Yn dilyn y cyhoeddiad yn yr Alban na fyddai disgyblion yn sefyll arholiadau'r flwyddyn nesaf dywedwyd bod disgwyl i gyhoeddiad ar gyfer Cymru ym mis Tachwedd. Roedd disgwyl i gyfarfodydd gael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru i drafod arholiadau yng Nghymru. Byddai mewnbwn gan yr holl Brif Swyddogion Addysg a chynrychiolydd Penaethiaid o bob Sir yn cael ei ystyried.*
- *Byddai diweddariad ar effaith Covid yn ein hysgolion yn cael ei roi ym mhob cyfarfod yn y dyfodol*
- *Roedd nifer o ddisgyblion wedi dadgofrestru o'r ysgol er mwyn osgoi peidio â chael dirwyon am ddiffyg presenoldeb gan nad oedd y rhieni'n teimlo'n gyffyrddus â'u plant yn mynychu'r ysgol, er bod yr holl weithdrefnau diogelu ar waith. Hefyd roedd nifer o blant a oedd yn cael addysg gartref wedi cofrestru i fynychu'r ysgol cyn y cyfnod clo, roeddent i gyd wedi dychwelyd i'r ysgol.*

Ystyriwyd Cynnydd Blwyddyn 3 yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Trafodwyd y naw argymhelliad a gafwyd yn yr adroddiad gan y Pwyllgor.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Gwnaeth y Pwyllgor argymhelliad i'r Cabinet y dylid anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt ystyried bod grantiau sy'n targedu'r ystod oedran 0-7 yn cael eu darparu trwy’r Grant Cynnal Refeniw ac nid cyllid grant (cynlluniau Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf), roedd hyn oherwydd yr anhawster wrth gynllunio ymlaen llaw ar gyfer y ddarpariaeth hon dros strategaeth 3 blynedd; hefyd bod yr arian hwn yn cael ei glustnodi fel darpariaeth gofal plant arall yng nghyllideb gofal plant y Grant Cynnal Refeniw. Dywedodd y Cabinet na allent gefnogi argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy’n Dysgu gan fod y grant ar gyfer pedair sir ac na ellir ei roi yn y Grant Cynnal Refeniw.*

Ystyriwyd y Polisi Cludiant rhwng y Cartref a’r Ysgol. Dywedwyd bod y cludiant rhwng y Cartref a'r ysgol ar gyfer disgyblion â hawl yn yr Awdurdod Lleol yn cael ei drefnu gyda gweithredwyr cludiant lleol. Adolygwyd a mabwysiadwyd y Polisi Cludiant rhwng y Cartref a’r Ysgol ym mis Medi 2016, pan gynhwyswyd cyflwyno tâl £390 y flwyddyn ar gyfer darpariaeth sedd sbâr ar gyfer disgyblion heb hawl. Ers cyflwyno'r tâl ym mis Medi 2018, cafwyd oddeutu £7,000 o incwm y flwyddyn.

Oherwydd y bwriad i gyflwyno Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000, roedd angen diwygio'r polisi cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a dileu'r cyfeiriad at y ddarpariaeth sedd sbâr a'r tâl amdani. Cafodd y broses o ran cyflwyno apêl pan wrthodwyd cludiant ei diweddaru hefyd a'i gwneud yn glir i adlewyrchu Cyfansoddiad yr Awdurdod Lleol o ran y panel apêl cludiant.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Cytunodd y Pwyllgor i argymell i'r Cabinet gymeradwyo'r polisi.*

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried y gyllideb ddrafft sy'n cael ei hargymell gan y Cabinet ar gyfer 2021/2022, ynghyd â Chynigion ar gyfer Lleihau Costau/Arbedion i'r Gyllideb 2021/22, a newidiadau arfaethedig i Ffioedd a Chostau'r Cyngor 2021/22 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Yn ystod trafodaethau, codwyd y pwyntiau canlynol:*

- *Codwyd pryderon y byddai rhieni'n tynnu eu plant oddi ar gofrestr yr ysgol oherwydd eu pryderon ynghylch covid-19. Cadarnhawyd bod yr adran yn gweithio'n agos gydag ysgolion a rhieni i sicrhau bod plant yn parhau ar y gofrestr i gynnal cysylltiadau lles os yw rhieni'n dewis i'w plant beidio â dychwelyd i'r ysgol ar unwaith.*
- *Holodd yr aelodau a fyddai partneriaeth newydd ar ôl ERW yn cael ei ffurfio a fyddai angen cyllid. Dywedodd swyddogion nad oedd dim cynlluniau ffurfiol yn cael eu trafod ar hyn o bryd. Bydd papur ar Wella Ysgolion trwy Weithio Rhanbarthol: adolygiad o effaith ERW ar wella ysgolion a gwerth am arian yn cael ei ystyried gan y pwyllgor craffu yn y cyfarfod nesaf.*
- *Awgrymodd Aelod y dylid codi Treth y Cyngor i fynd i'r afael â'r pwysau o ran costau yng nghyllideb ddirprwyedig ysgolion.*
- *Cadarnhaodd swyddogion y byddai ymgynghoriad ar gau'r ffreuturiau yng Nghanolfan Rheidol a Phenmorfa.*
- *Awgrymwyd bod angen cynnal adolygiad o sut mae addysg yn cael ei darparu ledled y Sir gan gynnwys darpariaeth chweched dosbarth.*
- *Canmolodd yr Aelodau Wasanaethau Ysgolion am arolygiad diweddar Estyn.*

*Yn dilyn ystyriaeth, cytunodd fwyafrif yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn:*
*1. CYMERADWYO cyllideb y meysydd gwasanaeth o fewn cylch gwaith y Pwyllgor fel uchod; a;*
*2. CYMERADWYO'r Ffioedd a Chostau arfaethedig fel yr amlinellir yn Atodiad 2 yr adroddiad, (tudalennau 45-51 o 51)*
*3. CYMERADWYO'r cynlluniau Cyfalaf perthnasol yn y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig*

Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion ar Wella Ysgolion trwy Weithio Rhanbarthol: adolygiad o effaith ERW ar wella ysgolion a gwerth am arian. Roedd yr adroddiad wedi'i gyflwyno er mwyn rhoi gwybod i'r pwyllgor am y Cyngor yn penderfynu'i safbwynt ar Gonsortiwm ERW, yr angen i gydymffurfio â Chytundeb Cyfreithiol ERW, a'r hysbysiad tynnu'n ôl a gyhoeddwyd gan yr Arweinydd ar 17.3.2020 er mwyn cwblhau proses tynnu'n ôl o Gonsortiwm ERW.
Cyflwynwyd y wybodaeth ganlynol a arweiniodd at y cytundeb i dynnu'n ôl o Gonsortiwm ERW i'r Pwyllgor:-

- Cefndir
- Sefyllfa Bresennol
- Cefnogaeth Erw
- Gwerth am Arian
- Peryglon Tynnu'n Ôl

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cabinet nodi:*

*(i) bod yr hysbysiad tynnu'n ôl a gyhoeddwyd gan yr Arweinydd ar 17.3.20 yn sefyll fel y'i cyflwynwyd,*
*(ii) yn cytuno y bydd y Cyngor yn tynnu'n ôl o Gonsortiwm ERW ar 31ain Mawrth 2021; a*
*(iii) Os cytunwyd ar ii) uchod, bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Addysg/Swyddog Arweiniol Corfforaethol-Ysgolion a Diwylliant mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet, i gymryd yr holl gamau angenrheidiol ac, ymrwymo i'r holl gytundebau angenrheidiol, i gwblhau'r broses o dynnu'n ôl o ERW.*

**Ffrydiau gwaith**
Mae'r ffrydiau gwaith yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac mae'r Cadeirydd yn mynychu'r tri ac yn cyfrannu iddynt.

| | | |
|---|---|---|
| **Safonau Mewn Ysgolion/ Standards and Schools** | **Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cynhwysiant a Lles/ ALN, Inclusion & Wellbeing** | **Ymgysylltu Ieuenctid ac Addysg Barhaus/ Youth Engagement & Continuing Education** |

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**
*Nid yw ffrydiau gwaith wedi cyfarfod yn ystod 2020/21 oherwydd effaith covid-19. Rhoddwyd adborth i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu o'r ffrydiau gwaith a gynhaliwyd yn ystod 2019/20.*

# Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

Gwnaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus gyfarfod 3 gwaith yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol 2020/2021.



**Y prif faterion a drafodwyd:**

Cafodd y Flaenraglen Waith ei monitro a'i diweddaru ym mhob un o gyfarfodydd rheolaidd y Pwyllgor fel eitem sefydlog ar bob agenda.

Adolygodd y Pwyllgor effaith Coronafeirws ar Economi Ceredigion. Fe wnaethant ystyried yr effaith hysbys ar hyn o bryd ar economi Ceredigion, y mesurau cymorth sydd wedi'u cyflwyno yng Ngheredigion a'r mesurau sy'n cael eu cynllunio a'u gweithredu ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r economi.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**

*Yn ystod y drafodaeth, codwyd sawl pwynt a oedd yn cynnwys y canlynol:*

i. *Codwyd pryderon o ran ffigurau cynyddol diweithdra a phryder y rheini sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd wrth i ffyrlo ddirwyn i ben. Bydd cau Canolfannau Gwaith yn y mwyafrif o drefi bach yn ei gwneud hi'n anodd i bobl mewn ardaloedd gwledig sydd wedi colli eu gwaith fforddio costau teithio i'w Canolfan Waith agosaf. Nodwyd, wrth i'r cynllun cadw swyddi ddod i rym, fod yr amodau'n wahanol i ffyrlo.*

ii. *Nodwyd y byddai gweithio gartref yn dod yn norm ac yn gyffredin yn y dyfodol felly ni fyddai angen i weithwyr o reidrwydd fyw yn yr ardal lle maent yn gweithio.*

iii. *Mae angen mwy o waith o ran hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth o ofalu fel proffesiwn medrus.*

iv. *Codwyd pryderon mewn perthynas â phlant sy'n byw mewn tlodi.*

v. *Nodwyd yr angen am welliannau i seilwaith y Sir ynghyd ag angen am strategaeth gref i gael buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru.*

*vi. Byddai'r angen am dai fforddiadwy yn y sir hyd yn oed yn fwy bellach gan fod prisiau tai wedi codi'n sylweddol dros yr ychydig fisoedd diwethaf.*
*vii. Mae angen mawr hefyd am strategaeth i gynorthwyo trefi bach, gwledig.*
*viii. Ymchwilir i'r strategaeth ar gyfer asedau'r Cyngor. Ceir cynnig defnyddio eiddo gwag i bobl sy'n dymuno cychwyn neu ehangu eu busnesau.*
*ix. Nodwyd cysylltedd digidol fel maes pryder mewn sawl rhan o'r Sir.*

*Argymhellodd y Pwyllgor i'r Cabinet:*

- *Bod angen strategaeth i helpu trefi bach y Sir*
- *Bod angen mwy o waith i wella cysylltedd digidol*
- *Bod mwy o bwyslais yn cael ei roi  ar helpu tlodi gwledig*
- *Bod mwy o gefnogaeth yn cael ei rhoi i bobl ifanc sefydlu busnesau yn ystod yr amseroedd hyn*

Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft sy'n cael ei hargymell gan y Cabinet ar gyfer 2021/2022, ynghyd â Chynigion ar gyfer Lleihau Costau/Arbedion i'r Gyllideb 2021/22, a newidiadau arfaethedig i Ffioedd a Chostau'r Cyngor 2021/22 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Yn ystod trafodaethau, codwyd y pwyntiau canlynol:*

- *Rhoddwyd esboniad na fyddai'r gwasanaeth bwcabws yn cael ei effeithio oherwydd llai o gyfraniad i bwcabws.*
- *Holodd yr aelodau ynghylch yr effaith y byddai Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn ei chael ar ein Ffermydd Sirol ac a fyddai'r Cyngor neu'r tenant yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb ariannol pe bai angen gwelliannau. Atebodd swyddogion drwy ddweud y byddai'n rhaid edrych ar bob les yn unigol.*
- *Rhoddwyd pwyslais ar roi cefnogaeth lle bo hynny'n bosibl i fusnesau newydd.*
- *Codwyd pryderon ynghylch nifer y materion gorfodi cynllunio ac a oedd un swyddog gorfodi cynllunio yn ddigon. Rhoddwyd esboniad bod swyddogion cynllunio bellach yn ymgymryd â rôl orfodi.*
- *Dylid ystyried opsiwn llogi Penmorfa fel canolfan gynadledda ar gyfer digwyddiadau;*
- *Opsiwn llogi lleoedd gwaith yn adeiladau ein swyddfeydd i bobl nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y Cyngor;*
- *Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ystyried system hybrid o fynychu cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol lle bydd gan Gynghorwyr opsiwn mynychu o bell;*
- *Cynigiodd y Cynghorydd Evans fod y ffioedd arfaethedig a restrir ar dudalen 33 mewn perthynas ag arhosiad Dwy Awr Maes Parcio Ffordd y Gaer (cynnydd arfaethedig o £1.90 i £2) yn cael eu gostwng i £1.60; a bod parcio Diwrnod Cyfan yn Aberaeron (cynnydd arfaethedig o £3 i £3.10) yn cael ei gynyddu i £3.50.*

*Yn dilyn ystyriaeth, cytunodd fwyafrif yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn:*
*1. CYMERADWYO cyllideb y meysydd gwasanaeth o fewn cylch gwaith y Pwyllgor fel uchod; a;*

*2. CYMERADWYO'r Ffioedd a Chostau arfaethedig fel yr amlinellir yn Atodiad 3 yr adroddiad, (tudalennau 17-44 o 51) yn amodol ar ystyried yr argymhelliad a ganlyn:*

- *Bod y ffioedd arfaethedig a restrir ar dudalen 33 mewn perthynas ag arhosiad Dwy Awr Maes Parcio Ffordd y Gaer (cynnydd arfaethedig o £1.90 i £2) yn cael eu gostwng i £1.60; a bod parcio Diwrnod Cyfan yn Aberaeron (cynnydd arfaethedig o £3 i £3.10) yn cael ei gynyddu i £3.50.*

*3. CYMERADWYO'r cynlluniau Cyfalaf perthnasol yn y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig.*

*Cymeradwyodd y Cabinet y newidiadau mewn Ffioedd a Chostau mewn perthynas ag arhosiad Dwy Awr Maes Parcio Ffordd y Gaer (cynnydd arfaethedig o £1.90 i £2) yn cael eu gostwng i £1.80; a bod parcio Diwrnod Cyfan yn Aberaeron (cynnydd arfaethedig o £3 i £3.10) yn cael ei gynyddu i £3.60.*

Cafodd y Pwyllgor adroddiad ar yr ymateb i'r ymgynghoriad ar ddogfen Strategaeth Economaidd Ceredigion 'Hybu Economi Ceredigion - Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35' er mwyn i'r Pwyllgor adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth ac ystyried argymhellion i'r Cabinet wrth iddo baratoi i fabwysiadu'r Strategaeth.

Pwrpas y strategaeth yw rhoi sail i ddull Cyngor Sir Ceredigion o weithredu a'i weithredoedd i gefnogi twf economi Ceredigion dros y 15 mlynedd nesaf. Bydd y cynllun yn fframwaith ar gyfer cefnogi economi Ceredigion - yn canolbwyntio ar y meysydd sydd o fewn dylanwad Cyngor Sir Ceredigion i wneud gwahaniaeth i'r economi – h.y. sut mae'n defnyddio ei asedau cyfalaf, asedau dynol ac asedau refeniw i gael effaith gadarnhaol ar yr economi yng Ngheredigion dros y cyfnod hwnnw o amser. Er bod ei ffocws ar y gweithgareddau sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor Sir, bydd hefyd yn ymdrin â'i rôl allweddol mewn amrywiol bartneriaethau a fydd hefyd yn helpu i yrru economi Ceredigion. Bydd yn rhoi sail i weithredu ar lefel gwasanaeth a chynllunio busnes yn y dyfodol.

**<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>**

*Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cabinet ystyried pryderon y Pwyllgor y bydd datblygu yn gyfyngedig mewn rhai ardaloedd yng Ngheredigion oherwydd penderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru o ran datblygiadau newydd ar hyd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol oherwydd y potensial i gynyddu lefelau ffosffad o fewn yr Ardal Cadwraeth Arbennig.*

Dywedwyd am yr angen i ddatblygu Cynllun Gweithredu clefyd (Chalara) coed ynn wrth y Pwyllgor Craffu ar 5$^{ed}$ Tachwedd 2019. Mae angen y Cynllun Gweithredu clefyd (Chalara) coed ynn er mwyn rhoi mecanwaith i'r Cyngor reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chlefyd (Chalara) coed ynn, a thrwy hynny leihau effeithiau o ran iechyd a diogelwch, o safbwynt economaidd ac o safbwynt amgylcheddol ac osgoi'r risg o ddifrod i enw da'r Cyngor.

Nodwyd bod delio â chlefyd (Chalara) coed ynn yn flaenoriaeth iechyd a diogelwch sylweddol i'r cyngor. Mae trafodaethau o ran costau yn parhau gyda'r gwasanaeth cyllid ond nid yw'r costau'n rhan o bwysau cyllidebol hyd yn hyn. Nododd llawer o aelodau y dylid trafod costiadau o ran prynu'r peiriannau perthnasol sy'n angenrheidiol ac ymgymryd â'r gwaith yn fewnol ynghyd â defnyddio coed a dorrwyd ar dir sy'n eiddo

i’r cyngor at ddibenion biomas. Mae pren ynn yr effeithir arno yn mynd yn frau iawn felly nid yw'n addas ar gyfer y diwydiant gwaith coed.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

*Cytunodd y Pwyllgor i gymeradwyo’r cynllun gweithredu o ran clefyd (Chalara) coed ynn a sicrhau bod adnoddau, dynol ac ariannol, yn cael eu sicrhau ar gyfer ei weithredu a'i gyflawni’n llwyddiannus. Mae hyn er mwyn rhoi mecanwaith i'r Cyngor reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chlefyd (Chalara) coed ynn, a thrwy hynny leihau effeithiau o ran iechyd a diogelwch, o safbwynt economaidd ac o safbwynt amgylcheddol ac osgoi'r risg o ddifrod i enw da'r Cyngor. Byddai'r Pwyllgor yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn y Sir.*

Cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w hysbysu o'r data diweddaraf sydd ar gael mewn perthynas â Llety Gwyliau ac Ail Gartrefi ledled y sir er mwyn mynd ar drywydd y cynnig i'r Cyngor ac ymchwilio ymhellach i nifer, lledaeniad ac effaith ail gartrefi ar sir Ceredigion. Mae gan Geredigion gyfraddau is o berchnogaeth ail gartrefi a llety gwyliau (5.91%) na’n hawdurdodau arfordirol cyfagos Gwynedd 10.77% a Sir Benfro 9.15% ond mae gennym gyfraddau uwch o gymharu ag awdurdodau nad ydynt yn rhai arfordirol. Mae gan Geredigion y bedwaredd gyfradd uchaf o lety gwyliau a pherchnogaeth ail gartrefi awdurdodau lleol yng Nghymru.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**


*Cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus i gymeradwyo'r Cynnig a gynigiwyd i'r Cyngor:*
*Mae Cyngor Sir Ceredigion yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*
*1. ychwanegu cymal newydd i’r Ddeddf Gynllunio fel ei bod yn orfodol gwneud cais cynllunio cyn cael yr hawl i newid cartref preswyl yn gartref gwyliau neu’n llety gwyliau*
*2. addasu fframwaith y polisi i ganiatáu pennu trothwyon o ran uchafswm niferoedd y cartrefi gwyliau mewn ardal benodol*
*3. ei gwneud yn orfodol i berchnogion ail gartrefi ofyn am ganiatâd cynllunio cyn newid ail gartref yn fusnes gwyliau neu’n fusnes AirBnB*

*Cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus hefyd i argymell i'r Cyngor y codir cynnydd 100% ar dreth y cyngor ar gartrefi gwyliau yn y sir.*

*Ystyriodd y Cyngor yr argymhellion ochr yn ochr â'r cynnig a phenderfynodd:*
*1. Cytuno ar y cynnig fel y nodwyd:*
*2. nodi'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a'r Pwyllgor Iaith; a*
*3. bod Swyddogion yn paratoi adroddiad i'w ystyried gan y Cyngor ynghylch argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus y codir cynnydd 100% ar y dreth y cyngor ar gartrefi gwyliau yn y Sir.*

## Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ddwywaith yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2020/2021.



<u>Y prif faterion a drafodwyd</u>

Swyddogaeth y Pwyllgor hwn yw cyflawni holl swyddogaethau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ymwneud â Gwasanaethau Corfforaethol (gan gynnwys adnoddau dynol, gwasanaethau cwsmeriaid, TGCh, rheoli'r trysorlys a gwasanaethau cyfreithiol), cynhwysiant/cyfle cyfartal, argyfyngau sifil, parhad busnes, rheoli ystadau a chofrestru sifil.




Cafodd Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar Ganmoliaeth, Cwynion a'r Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a ddaeth i law yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2019 hyd 31 Mawrth 2020 ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 25 Tachwedd.

Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn i'r Pwyllgor gael trosolwg cynhwysfawr o'r ganmoliaeth, y cwynion a'r ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd yr Awdurdod yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn darparu gwybodaeth am gwynion a gafodd eu cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

Rhoddodd y Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth gyflwyniad cefndirol llawn gwybodaeth i'r Aelodau am y gwasanaeth a'r sefyllfa bresennol. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyngor Llawn ar 10 Rhagfyr 2020 er gwybodaeth i'r Aelodau i gyd.

**<u>CANLYNIAD / EFFAITH</u>**
*Canmolodd yr Aelodau'r adroddiad a'r gweithdrefnau effeithiol a oedd ar waith gan yr Awdurdod er mwyn ymdrin â chwynion. Dyma'r adroddiad cyntaf mewn bron i ddegawd lle na ddechreuodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ddim ymchwiliadau ac na chyflwynodd adroddiadau mewn perthynas â chwynion a wnaed yn erbyn y Cyngor. Sicrhawyd yr Aelodau hefyd fod y systemau angenrheidiol ar waith i gofnodi, dadansoddi ac adrodd yn ogystal ag i ddysgu gwersi o gwynion.*

*Roedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol wedi bod yn monitro cwynion gan fod hynny'n eitem a gofnodwyd yn flaenorol ar Gofrestr Risg yr Awdurdod.*

Yn yr un cyfarfod, ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol adroddiad diweddaru ar Raglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru.




**CANLYNIAD / EFFAITH**

*Mae'r tîm Dysgu a Datblygu, sy'n rhan o'r gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth, yn gweithio gyda Chynghorau Sir Caerfyrddin a Phenfro i gyflwyno cais rhanbarthol i Ofal Cymdeithasol Cymru am grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru. Pwrpas y grant yw ariannu'r ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yn fewnol ac yn allanol. Mae meini prawf yn gysylltiedig â'r grant sy'n datgan sut y gellir defnyddio'r cyllid ac mae pob un o'r tri awdurdod yn derbyn swm penodedig.*

*Mae'r gwaith o lywodraethu a monitro'r grant yn cynnwys llunio'r adroddiadau rhanbarthol canlynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru:*

- *Cais am grant*
- *Adroddiad canol-blwyddyn*
- *Adroddiad diwedd blwyddyn*

*Caiff y rhain eu cymeradwyo a'u hawdurdodi gan y tri Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'u cyflwyno i Fwrdd Gweithlu Gorllewin Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn ymgymryd ag archwiliad blynyddol. Roedd yr archwiliadau blaenorol ar gyfer 18/19 a 19/20 ill dau yn "lân heb unrhyw amodau".*

*O gyfanswm gwariant y Rhaglen o £252,576 ar gyfer Awdurdod Lleol Ceredigion, defnyddiwyd £109,393 i gefnogi hyfforddiant, £38,730 ar gyfer cymwysterau ffurfiol a £104,453 ar gyflogau gan gynnwys hyfforddi swyddogion, gwaith gweinyddu a rheoli.*

*Ym Mawrth 2020, oherwydd Covid, cafodd pob hyfforddiant wyneb yn wyneb ei atal dros dro. Ar ôl hynny, ceisiwyd cael cymeradwyaeth y Drefn Reoli Aur i gymeradwyo'r hyfforddiant wyneb yn wyneb hanfodol ar godi a chario, sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol rheng flaen. Fe'i darparwyd yn ddiogel yn unol â'r gweithdrefnau a'r canllawiau ar Covid-19.*

*Datblygwyd nifer o raglenni e-ddysgu i gefnogi gweithwyr rheng flaen mewnol ac allanol a'r rhai a adleolwyd gan gynnwys 'Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol a Gofal Personol' ac 'Atal a Rheoli Heintiau'.*

*Roedd yr Aelodau yn falch iawn o ddeall bod y tîm dysgu a datblygu wedi derbyn adborth cadarnhaol gan ddarparwyr mewnol ac allanol ar y gefnogaeth y mae Cyngor Ceredigion wedi'i darparu i'r sector dros y cyfnod anodd hwn.*

*Cytunwyd y byddai'r Aelodau yn cael y diweddaraf am unrhyw gynnydd yn y dyfodol.*

Yn yr un cyfarfod rhoddwyd ystyriaeth i'r Fframwaith Polisi Ardrethi Annomestig Drafft ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Gorfodol, Dewisol a Chaledi, cyn gwneud argymhelliad i'r Cabinet.

**CANLYNIAD / EFFAITH**

*Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru (yn sgil archwiliad o Gyfraniadau Terfynol Ardrethi Annomestig 2017/18) lythyr cymhwyso am nad oedd y Polisi Rhyddhad Ardrethi Dewisol wedi cael ei ddiweddaru ers mis Medi 2007. Cytunodd yr Aelodau fod y polisi diwygiedig yn fanylach a'i fod yn sicrhau fod y broses benderfynu'n eglur ac yn dryloyw i bawb. Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell bod y Cabinet yn:*

- *cymeradwyo'r Fframwaith drafft Polisi Ardrethi Annomestig ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Gorfodol, Dewisol a Chaledi.*

Yn yr un cyfarfod cafodd yr Aelodau adroddiad ar effaith y pandemig ar wasanaethau TGCh y Cyngor, gan gynnwys Gwasanaeth Cwsmeriaid Clic.

**CANLYNIAD / EFFAITH**

*Mae'r gwasanaeth TGCh a'r Gwasanaeth Cwsmeriaid ill dau wedi cynnal gwasanaeth llawn, a'r rhan fwyaf o'r staff yn gweithio o gartref. Rhestrir y meysydd gwaith isod:*

Gwaith sy'n benodol i COVID

- Rhwydwaith Preifat Rhithwir (VPN) newydd
- Tracio ac Olrhain
- Gweinyddu Gofal Plant brys
- 2362 o Grantiau Busnes y Cyfnod Clo Cenedlaethol - £28,415,275
- Grantiau i Weithwyr Llawrydd
- Cyfnod Atal Byr – 1070 cais am £2,844,500 ar hyn o bryd
- Cardiau Gofalwyr
- Ceisiadau am Dalebau Prydau Ysgol am Ddim
- Cefnogi Gwarchod

Clic CEREDIGION

*Estynnodd Aelodau'r Pwyllgor eu llongyfarchiadau i'r tîm am eu cyfraniad gwerthfawr dros y 9 mis blaenorol ers i'r pandemig ddechrau ac yn enwedig eu gwaith pwysig o gefnogi adrannau a'r gymuned ehangach.*

**CANLYNIAD / EFFAITH**

*Yn ystod 2019/2020 sefydlwyd tri grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried rhai o brif feysydd gwaith y gwasanaeth, yn enwedig y rheini nad ymchwiliwyd iddynt ers cryn amser. Roedd yr Aelodau'n cytuno bod ystâd yr Awdurdod yn ased gwerthfawr, felly byddent yn chwilio am enghreifftiau o arferion da neu feysydd i'w gwella gan roi argymhellion i'r Cabinet pan fyddai'r gwaith wedi'i gwblhau.*

***Yn sgil y pandemig, bu'n rhaid rhoi'r maes gwaith hwn o'r neilltu am y tro. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae rhannau o'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddynt a byddwn yn cynnwys y casgliadau yn Adroddiad Blynyddol 2021/2022.***

Cytunwyd ar enwau a phwrpas/meysydd gwaith y grwpiau gorchwyl a gorffen, sef:

1. Trafodion:

- Ystyried trefniadau presennol y gwasanaeth i sicrhau'r incwm mwyaf posibl pan fydd yn gwerthu ac yn prydlesu asedau;
- Ystyried y trefniadau presennol pan fydd yn prynu tir neu adeiladau, ac ystyried cadernid y broses/prosesau.
  - ➢ Gwaredu asedau (tir ac adeiladau)
  - ➢ Yr Ystâd Gorfforaethol
  - ➢ Prynu asedau

**CANLYNIAD / EFFAITH**

*Mae'r grwpiau Gorchwyl a Gorffen wedi gwneud cyfanswm o 23 o awgrymiadau/argymhellion hyd yma, ac mae'r Aelod Cabinet a'r Swyddogion wedi derbyn llawer ohonynt a'u rhoi ar waith yn sgil cyfarfodydd y grwpiau gorchwyl a gorffen. Cyflwynir adroddiad i'r Cabinet maes o law pan fydd gwasanaethau'n ailddechrau ar ôl pandemig y coronafeirws.*

*Fel y soniwyd eisoes, mae gan y Grŵp Adnoddau, Ffermydd Sirol a Galwadau Newydd fwy o waith i'w wneud o hyd, yn enwedig o ran y ffermydd sirol, ar ôl i fesurau Covid-19 lacio digon.*

Hefyd adroddwyd ar Gysylltedd Digidol i'r Pwyllgor. Cafodd yr Aelodau wybodaeth am fentrau a phrosiectau yr oedd y Cyngor yn gweithio arnynt i gynnal lefelau'r cysylltedd digidol ledled y Sir.

**CANLYNIAD / EFFAITH**

*Cytunodd yr Aelodau eu bod yn deall yn well, yn dilyn y drafodaeth, y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Cyngor o ran gwella cysylltedd digidol ar draws y sir. Cytunwyd y byddai rhagor o adroddiadau yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.*

Ar 19 Chwefror 2021, derbyniodd yr Aelodau adroddiad ar gyllideb ddrafft ar gyfer 2021/2022, fel a ganlyn:

- Ystyried y gyllideb a argymhellir gan y Cabinet ar gyfer 2021/22;
- Ystyried y cynigion ar gyfer lleihau costau/ gwneud arbedion i'r gyllideb 2021/2022;
- Ystyried y newidiadau a gynigir o ran Ffioedd a Chostau 2021/22.

**CANLYNIAD / EFFAITH**

*Cododd yr Aelodau lawer o sylwadau/pryderon ac ymatebodd Aelodau Gweithredol a Swyddogion iddynt. Yn dilyn trafodaeth hir, gwnaed yr argymhellion canlynol i'r Cabinet:*

- *Bod Aelodau'r Pwyllgor yn argymell bod Arweinydd y Cyngor a'r Cabinet yn adolygu eu penderfyniad ar y sail y byddai unrhyw ddiwygiadau i'r Grant Cynnal Refeniw (RSG) dros dro yn cael eu hamsugno gan Gyllideb Refeniw Gorfforaethol y Grŵp Arweiniol; a*
- *Bod Aelodau'r Pwyllgor yn argymell bod Arweinydd y Cyngor a'r Cabinet yn rhoi ystyriaeth bellach i ddyraniad unrhyw gynnydd posibl yn y Grant Cynnal Refeniw.*

*Nododd a chytunodd y Weithrediaeth i hyn yng nghyfarfod y Cabinet ar 23 Chwefror 2021.*

# Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar dri achlysur yn ystod 2020/2021.




<u>Y prif faterion a drafodwyd</u>

Daeth y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer gwasanaethau arbenigol Porth Cynnal i gyfarfodydd y Pwyllgor yn rheolaidd i gyflwyno Adroddiadau Rheoli Perfformiad chwarterol y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol sy'n cynnwys safonau cenedlaethol a lleol, a'r targedau a ddefnyddir i fesur canlyniadau plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a yw hawliau dynol y plentyn/person ifanc wedi'u tramgwyddo mewn unrhyw ffordd ac, os felly, mae'n ystyried atgyfeirio'r achos at CAFCASS Cymru.

**<u>CANLYNIAD / EFFAITH</u>**
*Cafodd pwysigrwydd y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ei gydnabod, ac roedd yr Aelodau'n falch o gael sicrwydd bod anghenion plant sy'n derbyn gofal yn cael eu bodloni ac yn gwella'n barhaus. Bu i'r Aelodau longyfarch staff y gwasanaeth, a bu iddynt ddiolch iddynt am eu hymroddiad a'u gwaith caled.*

Roedd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer gwasanaethau arbenigol Porth Cynnal wedi cyflwyno adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar ôl i AGC ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gynnal arolygiad o Gyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mewn perthynas â Chymorth Cynnar, Gofal a Chefnogaeth a Threfniadau Trosglwyddo ar gyfer Plant Anabl.

**<u>CANLYNIAD / EFFAITH</u>**
*Mae'r adroddiad yn nodi nifer o gryfderau o fewn y gwasanaeth ac mae hefyd yn cydnabod y gwaith trawsnewid sy'n mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a gynhwysir yn yr adroddiad. Datblygwyd Cynllun Gweithredu a gymeradwywyd gan y Grŵp Arweiniol i adeiladu ar gryfderau a sicrhau bod y meysydd lle mae angen gwella yn derbyn y sylw angenrheidiol.*

*Mae'r themâu gwella wedi'u grwpio fel a ganlyn:*

1. *Ansawdd Asesu, Cynllunio Gofal a Chofnodi;*
2. *Comisiynu a Darparu Gwasanaethau;*
3. *Goruchwylio Rheoli: Cryfhau'r swyddogaethau Sicrwydd Ansawdd.*

*Bydd cynnydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei werthuso yn gyson trwy broses gwarantu ansawdd mewn Cyfarfodydd Rheolwyr Gwasanaeth a gan Grŵp Monitro sy'n cynnwys cynrychiolaeth ar draws Porth Ceredigion a Swyddogion Corfforaethol eraill perthnasol o'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd.*

*Mewn adroddiad i'r Cabinet ar 2 Rhagfyr 2020, cytunodd y Pwyllgor i argymell y canlynol:*

- *Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu, ar ôl ystyried y pwyntiau canlynol:*

- *mae'r adroddiad yn ystyried cryfderau a gwendidau 'lefel uchel'. Mae pwyslais ar wendidau a'r camau unioni. Mae Aelodau'r Pwyllgor yn argymell bod y cynllun gweithredu hefyd yn rhoi pwyslais ar y cryfderau a nodwyd, er mwyn parhau i wella;*
- *mae angen adlewyrchu argyfwng presennol Covid-19 yn yr amserlen a nodir yn y cynllun gweithredu. Mynegwyd pryderon ynghylch a oes modd cyflawni'r amserlenni o ystyried y sefyllfa sydd ohoni;*
- *mae pwynt 1.1 ar dudalen 7 yr adroddiad yn nodi pryderon ynghylch adnoddau. Roedd hyn yn peri pryder i Aelodau'r Pwyllgor sy'n gofyn am adroddiad pellach ar y mater hwn a fydd yn cynnwys gwybodaeth am adnoddau ariannol a staffio;*
- *bod adroddiad ar gynnydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ymhen chwe mis.*

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar adroddiad ar gyflawniadau Uned y Gofalwyr a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau a'r amcanion y cytunwyd arnynt ar gyfer 2019-2020.

Mae'r adroddiad yn nodi fod Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib gyda phwyslais ar ganlyniadau, er mwyn gwella bywydau Gofalwyr ac er mwyn parhau i wella cymorth, gwasanaethau a chydnabyddiaeth Gofalwyr yng Ngheredigion. Mae'r Ddeddf yn darparu diffiniad newydd o ofalwr fel "person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl". Mae hyn yn dileu'r gofyniad bod yn rhaid i ofalwyr ddarparu "swm sylweddol o ofal yn rheolaidd".

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol adroddiad ar 2019/20 gan adlewyrchu pedwaredd flwyddyn cyfnod pontio Llywodraeth Cymru rhwng Mesur Strategaethau Gwybodaeth ac Ymgynghori ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**CANLYNIAD / EFFAITH**

*Yn llythyr Llywodraeth Cymru, dyddiedig 14 Mawrth 2018, maen nhw'n nodi eu disgwyliad bod Iechyd, Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector yn cydweithio mewn partneriaeth i gefnogi gofalwyr o dan y Ddeddf a hynny drwy:*

- *Helpu i fyw yn ogystal â gofalu – darparu cyfleoedd i ofalwr gael seibiannau rhesymol o'u rôl gofalu er mwyn iddynt allu parhau i ofalu a chael bywyd eu hunain y tu hwnt i ofalu;*
- *Adnabod a chydnabod Gofalwyr – gwella cydnabyddiaeth Gofalwyr o'u rôl a sicrhau bod y cymorth angenrheidiol ar gael iddynt;*
- *Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth – bod Gofalwyr yn derbyn cyngor priodol ble bynnag a phryd bynnag y mae angen hynny arnynt.*

*Mae Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru wedi derbyn yr adroddiad ac yn unol â chyfarwyddeb adrodd Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd y ddogfen hon i Lywodraeth Cymru ac fe'i derbyniwyd.*

*Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i'r Rheolwr Corfforaethol a thîm y Gofalwyr am barhau i wneud gwaith rhagorol. Ar ôl trafod, cytunodd y Pwyllgor i nodi adroddiad Adroddiad Blynyddol Uned y Gofalwyr i'r gwasanaethau cymdeithasol 2019-20.*

Ar 18 Chwefror 2021, derbyniodd yr Aelodau adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 er mwyn:

- Ystyried y gyllideb a oedd yn cael ei hargymell gan y Cabinet ar gyfer 2021/2022;
- Ystyried y cynigion ar gyfer Lleihau Costau/Arbedion i'r Gyllideb 2021/22, ac;
- Ystyried y newidiadau arfaethedig i Ffioedd a Chostau'r Cyngor 2021/22.

**CANLYNIAD / EFFAITH**

*Yn dilyn ystyriaeth, cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn:*

1. ***CYMERADWYO** cyllidebau perthnasol y maes gwasanaeth o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Cyflwynwyd dau opsiwn o ran arbedion i Aelodau'r Pwyllgor i'w hystyried ar gyfer y Gwasanaeth Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd. Cytunodd mwyafrif Aelodau'r Pwyllgor i argymell bod y Cabinet yn:*
    - *Cymeradwyo opsiwn b) lleihau'r wardeiniaid cymunedol o 2 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn i 1.6 cyfwerth ag amser llawn.*
2. ***CYMERADWYO'r** Ffioedd a Chostau arfaethedig fel yr amlinellir ym Mhapur C, Atodiad 1 papurau'r agenda, (tudalennau 1-14 o 51) yn amodol ar ystyried yr argymhelliad a ganlyn:*
    - *Bod y ffioedd arfaethedig a restrir ar dudalen 4 mewn perthynas â Sefydliadau Bridio Cŵn i gyd yn destun cynnydd o 6%, yn hytrach na'r codiadau canrannol arfaethedig sy'n amrywio o 4.9% i 5.1%.*
3. ***CYMERADWYO'r** cynlluniau Cyfalaf perthnasol yn y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig.*

*Derbyniodd y Cabinet argymhelliad rhif 1, gwrthododd rif 4 a derbyniodd argymhelliad 3.*

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd wybodaeth gefndir i adroddiad ar y diwygiadau i Reoliadau Mangreoedd Di-fwg (Cymru) 2007- y gofynion ychwanegol yn sgil yr ardaloedd awyr agored di-fwg newydd

a gyflwynwyd yn Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020. Mae angen awdurdodiad o dan y rheoliadau uchod ar y swyddogion Diogelu'r Cyhoedd er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth ar ran yr Awdurdod.



**CANLYNIAD / EFFAITH**

*Trafododd yr Aelodau'r wybodaeth yn helaeth, ac roedd y pwyntiau a godwyd yn cynnwys y canlynol:*

1. *Angen cynnwys gwaharddiad ar fêpio mewn ardaloedd dim ysmygu. Er nad yw hyn wedi'i gynnwys yn y rheoliadau ar hyn o bryd, nodwyd y gallai'r Pwyllgor argymell gwahardd fêpio ar safleoedd a thir y Cyngor, fodd bynnag ni fyddai gan y Cyngor unrhyw bwerau gorfodi mewn perthynas â fêpio. Nodwyd nad yw Awdurdodau eraill yng Nghymru wedi cyflwyno gwaharddiad ar fêpio, ond gall Ceredigion fwrw ati os caiff hynny ei gymeradwyo.*
2. *Mynegwyd pryderon ynglŷn â gyrwyr bysiau yn ysmygu mewn meysydd parcio wrth aros i ddisgyblion fynd ar eu bysiau. Byddai angen eglurder ynghylch a yw mannau parcio bysiau ar eiddo'r ysgol, ac os felly byddai'n ofynnol iddynt beidio ag ysmygu.*
3. *Nodwyd bod arwyddion wedi'u prynu i'w harddangos ar safleoedd sy'n eiddo i Gyngor Sir Ceredigion.*
4. *Cynigiwyd gweithdy i'r Cyngor gan fod y ddeddfwriaeth newydd yn effeithio ar bob ward.*
5. *Nododd rhai aelodau y byddai'n anodd plismona'r gwaharddiad. Fodd bynnag, nodwyd bod cydymffurfiaeth wedi bod yn gadarnhaol ers i'r ddeddfwriaeth ar beidio ag ysmygu ddod i rym. Nodwyd nad oes adnoddau ychwanegol i roi'r ddeddfwriaeth newydd ar waith.*

*Roedd yn ofynnol i aelodau'r pwyllgor wneud y canlynol:*

- *Ystyried cynnwys a goblygiadau'r adroddiad ac argymell y cymerir camau i sicrhau bod pob un o leoliadau di-fwg yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol newydd;*
- *Nodi'r gofynion gorfodi ychwanegol ar wasanaeth Diogelu'r Cyhoedd;*
- *Argymell cynnwys e-sigaréts yn rhan o'r gwaharddiad ar ysmygu mewn rhai (neu'r cyfan) o'r lleoliadau di-fwg y mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol amdanynt; ac argymell unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020 yn cael eu gweithredu.*

*Derbyniodd y Pwyllgor yr argymhellion hyn gydag awgrym y dylai'r Cyngor Llawn ystyried y canlynol:*

- *Y dylai unrhyw arwyddion di-fwg sy'n cael eu harddangos roi neges glir ei fod yn cynnwys pob math o ysmygu, gan gynnwys fêpio;*
- *Dylid darparu canllawiau clir i Gynghorau Cymuned a Thref a chyrff allanol sy'n prydlesu neu'n defnyddio eiddo a/neu dir sy'n eiddo i'r Cyngor; a*
- *Bod yr Awdurdod yn ymestyn y rheolau ysmygu ar holl safleoedd y Cyngor er mwyn cynnwys fêpio a hynny i hyrwyddo lles y cyhoedd ac i annog pobl ifanc i beidio ag ysmygu (Mynegwyd pryder fod gan fêpio wynt dymunol a bod hyn yn gallu denu pobl ifanc); a*
- *Bod angen i ni, fel Awdurdod, fod yn rhagweithiol wrth ystyried polisïau o'r fath er mwyn arwain drwy esiampl.*

*Yn dilyn pleidlais gan y Cyngor Llawn,* ***PENDERFYNWYD:***
*1) nodi cynnwys a goblygiadau'r adroddiad a sicrhau bod pob un o leoliadau di-fwg yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol newydd.*
*2) gwneud penderfyniad polisi ynghylch cynnwys e-sigaréts yn rhan o'r gwaharddiad ar ysmygu mewn rhai (neu'r cyfan) o'r lleoliadau di-fwg y mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol amdanynt; a*
*3) dirprwyo dyletswyddau i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd i awdurdodi swyddogion Diogelu'r Cyhoedd i ymgymryd â gorfodi priodol yn unol â Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020*

Mae Gweithgor Craffu Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth Cymru yn parhau i graffu ar waith Bwrdd Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth Cymru (Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd Canolbarth Cymru yn flaenorol). Canslwyd y cyfarfodydd yn ystod y cyfnod adrodd hwn, yn sgil pandemig Covid-19.

Fel rheol, cynhelir y cyfarfodydd y prynhawn ar ôl pob un o gyfarfodydd y Bwrdd a byddant yn ailddechrau ym mis Medi 2021. Adroddir arnynt yn y cyfnod adrodd nesaf. Mae'r Cadeirydd, Cyfarwyddwr a Rheolwr Rhaglen y Sir, a'r Cyfarwyddwyr Arweiniol yn mynd i'r cyfarfodydd hyn. Gweithgor Craffu ar y Cyd sy'n cynnwys aelodau o Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ceredigion (a Chyngor Sir Powys yn flaenorol) yw hwn. Daeth Cyngor Sir Powys â'i aelodaeth i ben ddiwedd 2019.

**<u>CANLYNIAD / EFFAITH</u>**

*Mae hwn yn gyfle i bwyso a mesur swyddogaethau amrywiol, i graffu ar y penderfyniadau a wnaed, ac i ystyried a ellir mynd ati i wella gwasanaethau ac i wneud argymhellion i'r perwyl hwn. Cyfarfu'r Gweithgor bedair gwaith yn ystod y cyfnod adrodd hwn.*

Lisa Evans

Swyddog Safonau a Chraffu

Dwynwen Jones

Swyddog Trosolwg a Chraffu